IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD MERCHER, 28 MEDI 2022

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd (Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Kaaba, Lancaster a/ac Wood |

1 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

2 : CAIS AM AMRYWIO TRWYDDED SAFLE - ADMIRAL NAPIER, HEOL DDWYREINIOL Y BONT-FAEN

Ymgeiswyr: Cynrychiolir gan Alex Green a Luke Carroll

Pobl Eraill â Diddordeb: Y Cynghorydd Caro Wild

Y Cais

Derbyniwyd cais i amrywio Trwydded Safle gan Valiant Pub Company Limited yn ymwneud ag Admiral Napier, 239 Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, Treganna, Caerdydd.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Disgrifiad o natur yr amrywiad (fel y nodir gan yr ymgeisydd):

"Yr amrywiad arfaethedig yw amrywio'r amser cychwyn ar gyfer oriau agor a gweithgareddau trwyddedadwy i

09.00 o ddydd Llun i ddydd Sul".

(3)Oni bai y nodir fel arall, caiff yr eiddo fod ar agor i'r cyhoedd yn bresennol yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy'n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol:

Dydd Sul i Ddydd Iau: 10:00 tan 00:00 o'r gloch
Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 10:00 tan 01:00 o'r gloch
O ddechrau'r oriau a ganiateir ar Nos Galan i ddechrau'r oriau a ganiateir ar Ddydd Calan.

(3) Cynnal gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi arno:

Dydd Sul – Dydd Iau 10:00 tan 23:30 o'r gloch
Dydd Gwener a dydd Sadwrn: 10:00 tan 00:30
O ddechrau'r oriau a ganiateir ar Nos Galan i ddechrau'r oriau a ganiateir ar Ddydd Calan.

(ii) Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf chwaraeon dan do.

Dydd Sul – Dydd Iau 10:00 tan 23:30 o'r gloch
Dydd Gwener a dydd Sadwrn: 10:00 tan 00:30

(iii) Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth fyw ac wedi'i recordio ac unrhyw adloniant tebyg (dan do):

Dydd Llun i ddydd Sadwrn: 10:00 i 23:30 o'r gloch
Dydd Sul: 10:00 i 23:00 o'r gloch

(iv) Darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos (dan do)
Dydd Sul – Dydd Iau 23:00 tan 23:30 o'r gloch
Dydd Gwener a dydd Sadwrn: 23:00 tan 00:30

Atodwyd map sy'n dangos y safle a chynllun o'r safle hwnnw i'r adroddiad.

<u>Sylwadau'r Ymgeisydd</u>

-
Gwahoddwyd Mr Alex Green i gyflwyno'r cais. Cynghorwyd aelodau fod Valiant Plc yn weithredwyr profiadol a oedd yn rheoli 35 safle.

Roedd yr ymgeiswyr yn ceisio ymestyn oriau gweithredu gan 1 awr yn y bore. Roedd y cais yn cael ei yrru gan alw gan gwsmeriaid. Mae tafarn gerllaw yn agor am 0800 o'r gloch ac yn gweini alcohol o 0900 o'r gloch. Dywedwyd bod agor yn gynnar yn boblogaidd gyda gweithwyr shifft a dynion mwy aeddfed. Doedd dim ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig ag agor yn y bore a gofynnwyd i'r Aelodau nodi nad oedd unrhyw sylwadau wedi eu derbyn gan Heddlu De Cymru.

Fe wnaeth Mr Green annerch y sylwadau ddaeth i law Cynghorwyr ward lleol. Er y derbyniwyd bod problemau yn y cyffiniau, roedd Mr Green o'r farn bod y rhan fwyaf o'r pryderon a godwyd yn faterion cymdeithasol cyffredinol ac ni chyflwynwyd tystiolaeth o gysylltiad â'r safle.

<u>Sylwadau Unigolion Eraill</u>

Anerchodd y Cynghorydd Wild yr is-bwyllgor. Dywedodd y Cynghorydd Wild fod y safle wedi'i leoli o fewn y ward mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Roedd yna bryderon difrifol ynglŷn â throseddu a diogelwch y cyhoedd. Mae'r strydlun yn anhrefnus ac mae hyn yn cael ei gwaethygu gan alcohol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â chyffuriau a thrais.

Mae ardaloedd preswyl ac ysgolion gerllaw ac mae'r cynghorwyr lleol wedi bod yn gweithio gyda Heddlu De Cymru i leihau'r alcohol sydd ar gael. Mae gorchmynion gwasgaru hefyd wedi cael eu defnyddio yn yr ardal.

Roedd y Cynghorydd Wild o'r farn bod ymestyn yr oriau y mae alcohol ar gael yn debygol o waethygu problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd yn yr ardal. Gofynnwyd i'r aelodau, felly, ystyried gwrthod y cais.

<u>I grynhoi</u>

-

Dywedodd Mr Green fod rhaid i benderfyniad yr Is-Bwyllgor ar y mater hwn fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau gan unrhyw awdurdod cyfrifol. Derbyniodd Mr Green y pryderon a godwyd gan y Cynghorwyr lleol ond byddai'r safle yn cael ei reoli'n dda ac fe fyddai'n rhoi amodau priodol ar waith i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

PENDERFYNWYD: Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu, bod yr is-bwyllgor yn DERBYN y cais.

Clywodd yr Is-bwyllgor gan yr ymgeiswyr a gwrandawodd ar yr holl dystiolaeth a chyflwyniadau ac ystyriodd y deunydd ysgrifenedig. Ystyriodd yr aelodau hefyd Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllawiau Adran 182, ein Datganiad polisi Trwyddedu a'r holl sylwadau ysgrifenedig a wnaed.

Mae'r Is-bwyllgor hefyd wedi ystyried y sylwadau a wnaed heddiw gan yr aelod ward lleol a thrigolion lleol ac wedi ystyried yr holl sylwadau ysgrifenedig a wnaed i ni.

Rhoddodd Aelod sylw i'r gwrthwynebiadau gan Aelodau Ward, a chydnabod bod pryderon ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal, ond nid oedd yn teimlo bod unrhyw dystiolaeth o anhrefn yn gysylltiedig â'r amrywiad arfaethedig o'r Drwydded Safle hon. Nid yw'r safle hwn wedi ei leoli o fewn ardal effaith gronnol ac o'r herwydd mae rhagdybiaeth i ganiatáu cais lle nad oes tystiolaeth y bydd y cais yn tanseilio'r amcanion trwyddedu. Yn ogystal a hyn, rydym yn nodi na chafwyd unrhyw wrthwynebiad gan Heddlu De Cymru sy'n cael eu cydnabod fel yr Awdurdod Cyfrifol yn ymwneud yn bennaf â throsedd ac anrhefn.

Mae'r Is-bwyllgor felly yn penderfynu caniatáu'r cais.

3 : CAIS AM AMRYWIO TRWYDDED SAFLE - GWESTY FAIRWATER, HEOL SAIN FFAGAN

Ymgeiswyr: Cynrychiolwyd gan Michelle Hazelwood, Terry Hill a John Nash

Y Cais

Derbyniwyd cais i amrywio Trwydded Safle gan Marston's Plc yn ymwneud â Gwesty Fairwater, Heol Sain Ffagan, Y Tyllgoed, Caerdydd.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Disgrifiad o natur yr amrywiad (fel y nodir gan yr ymgeisydd):
"Gwneir cais i amrywio'r Drwydded Safle. Mae'r safle wedi cael budd o ailwampio a fydd yn arwain at waith yn cael ei wneud tu mewn a thu allan y safle.

Ceisiodd y cais ddiwygio'r Drwydded Safle mewn perthynas â'r Eitemau canlynol.

1. Amrywio cynllun mewnol ac allanol y safle yn unol â'r darluniau:

   28/07/93131/404 GF - Llawr Gwaelod
   28/07/93131/FF/404 - Llawr Cyntaf

Y Tu Mewn
I ardal y lolfa, ymestyn seddi sefydlog.
Ailwampio priodol ac ailglustogi drwyddi draw.

Y Tu Allan
I gynnwys o fewn yr ardal drwyddedig, yr ardd gwrw sy'n bodoli eisoes mewn perthynas â gwerthu alcohol a lluniaeth hwyr yn y nos

2. Oriau

Ni cheisir unrhyw newid mewn perthynas â'r gweithgareddau trwyddedadwy a wneir a'r oriau gweithredu yn y safle. FODD BYNNAG, nodir bod yr oriau agor o ran dydd Sul i ddydd Iau yr un fath â'r oriau ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy ac nad ydynt yn darparu cyfnod dirwyn i ben 30 munud fel sy'n arfer gorau. Mae cais felly yn cael ei wneud i ganiatáu i'r safle aros ar agor tan hanner nos dydd Sul i ddydd Iau.

3. Gweithgareddau Trwyddedadwy.

Gwneir cais i ychwanegu gweithgaredd trwyddedadwy arddangos ffilmiau ar yr oriau canlynol:

Dydd Sul i Ddydd Iau - 10:00 tan 23:30
Dydd Gwener a Dydd Sadwrn - 10:00 tan hanner nos

4. Amodau

Ni chynigir unrhyw newid i'r amodau na'r amseru ansafonol sy'n cael eu cymeradwyo ar y drwydded".

Oni bai y nodir fel arall, caiff yr eiddo fod ar agor i'r cyhoedd yn bresennol yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy'n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol:

Dydd Sul i Ddydd Iau: 09:00 i 23:30 o'r gloch
Dydd Gwener a dydd Sadwrn: 09:00 tan 00:30
O ddechrau'r oriau a ganiateir ar Nos Galan i ddechrau'r oriau a ganiateir ar Ddydd Calan.

Darparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

(i) Manwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi arno:

Dydd Sul – Dydd Iau 10:00 tan 23:30 o'r gloch
Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 10:00 tan 00:00

O ddechrau'r oriau a ganiateir ar Nos Galan i ddechrau'r oriau a ganiateir ar Ddydd Calan.

(ii) Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf chwaraeon dan do.

Dydd Sul – Dydd Iau 10:00 i 23:30 o'r gloch
Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 10:00 i 00:00

(iii)Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth fyw (tu mewn) a cherddoriaeth wedi'i recordio (tu mewn):

Dydd Sul i Ddydd Iau 10:00 i 23:30 o'r gloch
Dydd Gwener a Dydd Sadwrn: 10:00 tan 00:00

(iv) Darparu lluniaeth yn hwyr yn y nos (dan do)

Dydd Sul i Ddydd Iau 23:00 i 23:30 o'r gloch
Dydd Gwener a dydd Sadwrn: 23:00 tan 00:00 o'r gloch

Cafodd map o'r safle yn dangos y lleoliad a'r cynlluniau y cyfeirir atynt uchod eu hatodi i'r adroddiad.

Ar ddechrau'r cyfarfod, rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod yr ymgeisydd wedi cytuno i'r amodau a awgrymwyd yn y sylwadau ysgrifenedig a gafwyd gan Reoli Llygredd. Cafodd y sylwadau hynny eu tynnu'n ôl wedyn.

Sylwadau'r Ymgeisydd

Cyflwynodd Michelle Hazelwood y cais. Cafodd aelodau wybod bod Marstons Plc wedi prynu'r adeilad yn 2021 ac roedd yn arfer bod yn rhan o stad S A Brains. Roedd angen adnewyddu'r adeilad ac roedd rhaglen dreigl o fuddsoddiad wedi dechrau i adnewyddu a moderneiddio'r eiddo oddeutu £300,000.

Roedd 3 elfen i'r cais ac roedd rhai newidiadau yn annadleuol. Ymestyn oriau i ganiatáu amser i ddirwyn i ben ar ddiwedd y noson oedd er mwyn caniatáu i bobl wasgaru'n raddol ac ystyriwyd y byddai hyn yn lleddfu rhai o'r materion a drafodwyd yn y sylwadau a dderbyniwyd gan drigolion lleol. Roedd caniatáu 30 munud o 'amser gorffen i yfed' yn arfer gorau ac fe gafodd ei gydnabod ar draws y diwydiant.

Roedd y cais yn ceisio caniatáu i ffilmiau gael eu chwarae y tu mewn ac y tu allan ac roedd rhai newidiadau i gynllun y safle hefyd. Roedd y newidiadau i'r llawr gwaelod yn fach iawn ond yn esthetig byddai'r safle'n edrych yn wahanol iawn. Roedd rhywfaint o fuddsoddiad i'w wneud yn yr ystafell ddigwyddiadau ar y llawr cyntaf hefyd, gan gynnwys buddsoddiad o £50,000 mewn cyfleusterau toiledau newydd.

Roedd yr ale fowlio ar y safle i'w hadnewyddu. Cafodd aelodau wybod bod y safle'n ganolbwynt adnabyddus ar gyfer diwylliant bowlio yn y ddinas ac roedd yr ymgeiswyr wedi ymrwymo i gynnal hynny. Mae'r safle'n cynnal 5 tîm ac fe'i defnyddir i gynnal rowndiau terfynol cystadleuaeth lleol.

Nododd Ms Hazelwood fod pryderon wedi eu mynegi o ran defnydd o'r ardal allanol, gan gynnwys darparu sgrin. Dywedodd Ms Hazelwood y byddai'r sgrin yn arddangos digwyddiadau a ffilmiau chwaraeon o bryd i'w gilydd tan 7.00pm. Gallai'r sgrin hefyd arddangos adloniant i blant yn ystod partïon plant.

Pan fyddai digwyddiadau chwaraeon yn cael eu cynnal ni fyddai sylwebaeth felly roedd lefelau sain yn annhebygol o fod yn broblemus. Fodd bynnag derbyniwyd y

byddai dal angen rheoli digwyddiadau o'r fath a bod gan yr ymgeiswyr bolisïau a systemau ar waith i sicrhau bod hyn yn wir. Wrth ymateb i gwestiwn gan yr Is-bwyllgor, dywedodd Ms Hazelwood, er bod ffilmiau'n weithgaredd trwyddedadwy ac yn cael eu rheoleiddio, nid dyma’r achos gydag arddangos digwyddiadau chwaraeon. Roedd y sgrin yn sgrin safonol heb unrhyw seinyddion ychwanegol ar gyfer chwyddo.

Gwnaed cais am gerddoriaeth fyw ac a recordiwyd ond roedd pob ffenestr a drws i aros ar gau pan oedd adloniant wedi'i reoleiddio yn digwydd.

PENDERFYNWYD: Wedi ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Pholisi Datganiad Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu, bod yr is-bwyllgor yn DERBYN y cais.

Clywodd yr Is-bwyllgor gan yr ymgeiswyr a gwrandawodd ar yr holl dystiolaeth a chyflwyniadau ac ystyriodd y deunydd ysgrifenedig. Ystyriodd yr aelodau hefyd Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllawiau Adran 182, ein Datganiad polisi Trwyddedu a’r holl sylwadau ysgrifenedig a wnaed.

Nododd yr Is-Bwyllgor, cyn y cyfarfod, bod yr ymgeiswyr wedi cytuno i'r amodau arfaethedig gan Reoli Llygredd Iechyd yr Amgylchedd yn Atodiad C yr adroddiad i hyrwyddo'r amcan trwyddedu Niwsans Cyhoeddus.

Rhoddodd yr aelodau sylw i'r sylwadau ysgrifenedig gan drigolion a'r effaith bosibl y gallai'r amrywiad arfaethedig ei chael ar yr amcanion trwyddedu ond roeddent yn teimlo na chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth y byddai caniatáu'r cais hwn yn tanseilio'r amcanion trwyddedu. Os nad oes tystiolaeth y bydd Trwydded Safle yn tanseilio'r amcanion trwyddedu, rhagdybir y caniateir y cais. Os oes tystiolaeth bod safle trwyddedig yn tanseilio'r amcanion trwyddedu, mae Deddf Trwyddedu 2003 yn galluogi unrhyw berson i wneud cais am Adolygiad o'r Drwydded Safle.

Felly, mae'r Is-bwyllgor yn penderfynu cymeradwyo’r cais yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt gyda Rheoli Llygredd Iechyd yr Amgylchedd.

## 4 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30 am